

## **Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) Casnewydd**

### **ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNLLUNIO BLYNYDDOL (APB) - 2014-2015**

#### **RHAGAIR**

##### ***Cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y gwasanaeth cynllunio***

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Perfformiad Blynyddol cyntaf Gwasanaethau Datblygu Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'r dirywiad economaidd wedi cael effaith heriol ar Gasnewydd yn y cyfnod diweddar, ond mae twf ac adfywio yn ofynion allweddol er mwyn cynorthwyo adferiad ac mae gwasanaeth cynllunio cadarn yn gwbl hanfodol er mwyn cyflawni hyn. Mae'r cynllunwyr wedi bod yn hanfodol wrth annog buddsoddiad sylweddol yng Nghanol y Ddinas gyda chwblhad y prosiect gwerth miliynau o bunnoedd, sef Friars Walk, a phrosiectau adfywio mawr ar y gweill yng Nglan Llyn, Parc y Jiwbilî a Loftus Garden Village, i enwi ond rhai ohonynt.

Mae hwn yn amser cyffrous i Gasnewydd, sydd yn wirioneddol yn ddinas sy'n dyrchafu. Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi chwarae rhan sylweddol mewn adferiad Casnewydd a bydd yn parhau i wneud hynny drwy gefnogi datblygiad a thwf economaidd mewn lleoliadau cynaliadwy.

##### ***Y Cyng John Richards - Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Adfywio a Buddsoddi***

#### **CYD-DESTUN**

##### ***Mae'r adran hon yn nodi'r cyd-destun cynllunio y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn gweithredu***

Yn sefyll fel porth rhwng Cymru a Lloegr, mae Casnewydd yn ymestyn dros ardal ddaearyddol o bron i 74 o filltiroedd sgwâr ac mae ganddi boblogaeth o 145,700. Mae'n ddinas amlddiwylliannol gydag awyrgylch unigryw ei hun, lle mae diwydiannau traddodiadol yn eistedd ochr yn ochr â chwmnïau uwch-dechnoleg a chyllid newydd. Mae'r gronfa lafur mawr yn un o brif gryfderau Casnewydd ac mae ei chysylltedd corfforol a digidol yn ei gwneud yn lle deniadol i leoli busnes.

Yn dilyn dirywiad diwydiant trwm ar ddiwedd y 20fed ganrif, mae cyfansoddiad economaidd Casnewydd wedi newid. Fodd bynnag, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddirywiad economaidd, mae bodolaeth safleoedd diwydiannol gwag wedi cynnig cyfle enfawr i lleoliadau cynaliadwy ar gyfer tai newydd, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol; cyfle mae Casnewydd wedi manteisio arno.

##### ***Cefndir, gan gynnwys cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd neu cynlluniau gadawedig***

Erbyn 2026, bydd Casnewydd wedi creu 10,350 o gartrefi newydd ychwanegol yn bennaf ar safleoedd tir llwyd. Er mwyn cefnogi twf cynaliadwy, bydd y ddinas hefyd yn creu 7,400 o swyddi ychwanegol. Mae'r rhain yn nodau cyffredinol allweddol o fewn Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd 2011-2026, sy'n dyrannu digon o dir i sicrhau bod yr amcanion uchelgeisiol ond realistig hyn yn cael eu cyflawni.

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd (CDLI) ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2015. Mae cynaliadwyedd wrth wraidd y Cynllun ac mae Casnewydd yn awyddus iawn i gefnogi datblygu, ond mae'n hanfodol mai'r datblygiad iawn ydyw yn y lleoliad cywir. Bydd y polisiau gyda'r Cynllun yn helpu sicrhau y cyflawnir hyn.

Mae sylfeini llawer o'r prosiectau adfywio, sydd yn awr yn dwyn ffrwyth yn y ddinas, yn cael eu nodi o fewn Cynllun Datblygu Unedol Casnewydd 1996 - 2011. Mae aildatblygiad safle Gwaith Dur Llanwern yn dystiolaeth o hyn. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn dyrannu y safle fel rhan o'r Ardal Ehangu Dwyrain, ac mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i hyrwyddo'r safle hwn fel elfen allweddol o ran cyflawni strategaeth twf y ddinas.

### ***Y lle a'r addasrwydd o fewn y strategaeth gymunedol a/neu weithgaredd strategol a gweithredol ehangach neu'r awdurdod***

Mae Strategaeth Gymunedol Casnewydd yn cwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd o 2010-2020. Mae'n cynnwys y gweledigaethau ac amcanion ar gyfer gwella'r ddinas ac yn sicr mae'n ddogfen fyw, sydd wedi cael, a bydd yn parhau i gael, ei llunio trwy ymgynghori â dinasyddion a grwpiau ar draws Casnewydd. Mae'r Strategaeth Gymunedol yn nodi nifer o allbynnau blaenoriaeth y mae'r adran gynllunio a'r CDLI mewn sefyllfa ddefnyddol i helpu i'w cyflawni. Mae allbynnau blaenoriaeth y Strategaeth Gymunedol yn canolbwyntio ar bedair prif thema:

- I fod yn ddinas ffyniannus a llewyrchus
- I gael ansawdd bywyd gwell
- I gael cymunedau bywiog a diogel
- I ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus

**Dinas ffyniannus a llewyrchus** – Mae'r CDLI yn ceisio gwella rôl Casnewydd fel canolbwynt economaidd mawr yn y rhanbarth drwy ddarparu safleoedd newydd ar gyfer tai a defnydd cyflogaeth. Mae'r CDLI yn targedu cynnydd o 7,400 o swyddi newydd erbyn 2026, sy'n gynydd o 9% ar lefelau 2011. Mae'r Cynllun yn sicrhau bod digon o dir cyflogaeth ar gael i gefnogi twf swyddi. Yn ogystal, mae'r Cynllun yn gefnogol iawn o fuddsoddiad ac adfywio yng nghanol y ddinas a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at ffyniant hirdymor Casnewydd.

**Gwell ansawdd bywyd** – Bydd y CDLI yn helpu i greu gwell ansawdd bywyd i bobl mewn nifer o ffyrdd. Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd a lles yn cael rhywfaint o sail yn y system gynllunio a all gyfrannu at well ansawdd bywyd. Mae'r rhain yn cynnwys lleoli datblygiadau ger llwybrau teithio diogel, hygyrch a chynaliadwy; gan gadw mewn cof materion ansawdd awyr; 'cynllunio allan' trosedd; a gwella mynediad i fannau gwyrdd a'r amgylchedd naturiol ehangach.

**Cymunedau bywiog a diogel** – Bydd y CDLI yn anelu at greu datblygiadau lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a saff. Bydd tai cymysg yn helpu gwella cydlyniant cymdeithasol a hybu rhyngweithio rhwng gwahanol grwpiau ac oed, sy'n bwysig i ddatblygu cymunedau mwy diogel. Bydd y CDLI hefyd yn hyrwyddo dylunio da a fydd yn helpu sicrhau cymunedau mwy diogel.

**Gwell gwasanaethau cyhoeddus** – Bydd y gwasanaeth cynllunio yn gwneud ei ran i helpu gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Mae swyddogion yn cysylltu'n agos ag adrannau eraill er mwyn deall eu hanghenion wrth ddarparu datblygiad. Mae'r CDLI yn cefnogi datblygu cyfleusterau cymunedol ychwanegol mewn lleoliadau cynaliadwy a, lle bo modd, yn gwarchod cyfleusterau presennol.

Yn ychwanegol at y Strategaeth Gymunedol, mae gan Gyngor Casnewydd ei Gynllun Corfforaethol ei hun sy'n nodi cynlluniau'r Cyngor y mae am eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf. Mae gan Cynllun Corfforaethol Casnewydd bum amcan sy'n canolbwyntio ar greu:

- Dinas sy'n Ofalgar
- Dinas sy'n Decach
- Dinas sy'n Dysgu a Gweithio
- Dinas sy'n Wyrddach ac yn Iachach
- Dinas sy'n fwy Diogel

**Dinas sy'n Ofalgar** – Bydd cynllunio a dylunio gofalus yn galluogi cymunedau i ffurfio lle mae pobl eisiau byw a pherthyn a lle mae pobl yn ymddiried a pharchu ei gilydd.

**Dinas sy'n Decach** – Bydd y CDLI yn helpu diwallu angen tai y ddinas trwy ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol. Bydd yn lleihau eithrio cymdeithasol drwy hyrwyddo hygyrchedd gwasanaethau allweddol a chaiff anghydraddoldebau eu lleihau drwy brosiectau adfywio sylweddol.

**Dinas sy'n Dysgu a Gweithio** – Mae'r CDLI yn dyrannu ardaloedd helaeth o dir at ddibenion cyflogaeth a fydd yn creu nifer sylweddol o swyddi. Bydd darparu tai yn creu nifer o swyddi yn y farchnad adeiladu. Caiff tir ar gyfer ysgolion hefyd ei ddyrannu yn y CDLI.

**Dinas sy'n Wyrddach ac yn Iachach** – Mae'r CDLI yn canolbwyntio datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes sy'n helpu i warchod cefn gwlad a mannau gwyrdd eraill. Bydd diogelu mannau gwyrdd yn cyfrannu at gymeriad gweledol ardal, gan helpu i ddarparu ardaloedd hamdden, gan gynnwys llwybrau ar gyfer cerdded a beicio.

**Dinas sy'n fwy Diogel** – Bydd y CDLI yn helpu creu datblygiadau diogel a saff trwy ei bolisiau sy'n seiliedig ar ddylunio.

Mae'r CDLI hefyd yn gweithio ar y cyd â chynlluniau a strategaethau eraill y Cyngor, y mae llawer ohonynt yn rhannu nodau ac amcanion cyffredin. Mae rhai o'r strategaethau allweddol yn cynnwys:

- Cynllun Cludiant Lleol
- Strategaeth Datblygu Economaidd
- Cynllun Integredig Sengl

### ***Dylanwadau cyffredol a blaenorol ar ddefnydd tir***

Gwelwyd Casnewydd yn ffynnu yn ystod y chwyldro diwydiannol o ddiwedd y 18<sup>fed</sup> ganrif a'r 19<sup>eg</sup> ganrif. Tyfodd y ddinas yn sylweddol, yn gyntaf gyda datblygiad y rhwydwaith camlesi ac yna gyda'r rheilffyrdd, gan alluogi cynnyrch enfawr o lo i gael ei allforio ynghyd â chynhyrchion haearn a dur. Yn yr 20<sup>fed</sup> ganrif, gwneud dur oedd prif gynheiliad yr economi ynghyd â'r porthladd.

Yn dilyn dirywiad diwydiant trwm ym mlynnyddoedd olaf yr 20<sup>fed</sup> Ganrif, newidiodd cyfansoddiad economaidd Casnewydd. Roedd bodolaeth hen safleoedd diwydiannol gwag mawr, megis hen Waith Dur Llanwern a hen ffatri Novelis Aluminium yn cynnig lleoliadau cryf cynaliadwy ar gyfer cymunedau newydd i gael eu datblygu. Mae adfywio safleoedd diwydiannol yn un ffocws allweddol o'r Cynllun Datblygu Lleol gyda 82% o'r tai yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu dyrannu ar safleoedd tir llwyd.

### ***Lleoliad / Tirwedd Hanesyddol yr ardal, gan gynnwys AHNE, ardaloedd cadwraeth ac ati***

Yn ystod yr oes Fictoraidd, daeth Casnewydd yn brif dref y rhanbarth. Mae llawer o'r adeiladau Fictoraidd hardd a adeiladwyd yn y cyfnod hwnnw yn parhau hyd heddiw, gan roi cymeriad i Gasnewydd y mae llawer o drefi a dinasoedd eraill wedi colli. Mewn ardaloedd eraill, mae'r amgylchedd adeiledig yn mynd yn ôl i gyfnod y Rhufeiniaid a'r Canoloesoedd gydag olion pwysig sydd wedi goroesi uwchben ac o dan lefel y ddaear bresennol. Mae cydnabod a gwarchod y dirwedd hanesyddol yn rhan bwysig o'r CDLI, gyda 15 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig wedi eu lleoli o fewn yr awdurdod.

O ran yr amgylchedd naturiol, mae gan Gasnewydd treftadaeth naturiol pwysig gyfoethog o ran amrywiaeth wedi eu cydnabod ar lefel rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, gan gynnwys yr Afon Wysg, Gwastadeddau Gwent, bryniau tonnog, coetiroedd a gwrychoedd.

Mae'r Afon Wysg wedi bod yn bwysig i dwf Casnewydd drwy gydol hanes ac yn parhau'n allweddol yn y gymdeithas sydd ohoni, yn enwedig mewn perthynas â ffactorau amgylcheddol. Mae'r Afon yn Ardal Gadwraeth Arbennig ynghyd â Moryd Hafren, sydd hefyd yn Ardal Warchodaeth Arbennig ac yn safle Ramsar. Mae rhwydwaith o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) hefyd yn bresennol yng Nghasnewydd, gyda Gwastadeddau Gwent efallai'r mwyaf enwog o'r rhain.

### ***Cymysgedd trefol a gwledig ac aneddiadau mawr***

Er y caiff Casnewydd ei ystyried yn ardal drefol yn aml, mae'r rhan trefol o fewn ffin y Ddinas yn gymharol gryno, gyda 70% o'r Ddinas wedi'i nodi fel yn wledig. Mae'r rhan fwyaf o'r anheddiad trefol yn cael eu cyfyngu i brif ardal y ddinas gyda llond llaw o bentrefi cyfagos i hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod cefn gwlad er ei fwyn ei hun ac am ei fod yn cynnig lleoliad tirwedd hanfodol ar gyfer yr ardal trefol a choridorau thrafnidiaeth.

### ***Newid yn y boblogaeth a dylanwad ar y CDLI/diwygiadau sydd ar y gweill***

Mae rhagamcanion Cyfrifiad Llywodraeth Cymru 2011 yn rhagweld cynnydd yn y boblogaeth o 15,588 yng Nghasnewydd rhwng 2011 a 2026. Mae hyn yn unol â thystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r CDLI. Fodd bynnag, mae rhagamcaniadau tai y CDLI yn fwy uchelgeisiol na rhagamcanion Cyfrifiad 2011 Llywodraeth Cymru (LIC). Mae rhagamcaniadau aelwydydd Cyfrifiad LIC 2011 yn seiliedig ar barhad o amodau a brofwyd yn ystod y dirwasgiad, ac yn methu ag adlewyrchu amcanion LIC o ran cynyddu'r cyflenwad o dai. Mae Casnewydd wedi seilio rhagamcaniadau tai y CDLI gyda rhagdybiaeth o dwf economaidd yn hytrach na dirwasgiad. Felly, yn yr archwiliad CDLI, cadarnhaodd yr Arolygydd Cynllunio a Ch angen Cynllunio Llywodraeth Cymru bod y gofyniad am dai Casnewydd o 10,350 annedd dros gyfnod y Cynllun yn parhau i fod y sail mwyaf cadarn ar gyfer cynllunio ar gyfer y galw am dai yn y dyfodol yng Nghasnewydd.


Mae cyfraddau cyflenwi tai yng Nghasnewydd ar hyn o bryd ar y trywydd iawn gyda rhagamcanion y CDLI.

## GWASANAETH CYNLLUNIO

### Lleoliad o fewn y sefydliad ehangach


Mae'r swyddogaeth gynllunio statudol yng Nghasnewydd yn rhan o'r adran Wasanaethau Datblygu. Mae'r adran Wasanaethau Datblygu yn un o bedair uned busnes o fewn y gwasanaeth Adfywio, Buddsoddi a Thai; sef Gwasanaethau Datblygu, Diwylliant a Dysgu Parhaus, Tai ac Eiddo, ac Adfywio Cymunedol. Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Datblygu yn adrodd i'r Pennaeth Adfywio, Buddsoddi a Thai. Mae'r strwythur hwn i'w weld yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1 - Lleoliad Gwasanaethau Datblygu o fewn y Adfywio, Buddsoddi a Gwasanaethau Tai**




Mae yna dau Gyfarwyddwr Strategol sy'n adrodd i'r Prif Weithredwr; y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Pobl a'r Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Lle. Mae'r Pennaeth Adfywio, Buddsoddi a Thai yn un o 9 Bennaeth Gwasanaeth ar draws y Cyngor ac yn un o dri sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Lle. Mae'r strwythur hwn i'w weld yn nhabl 2 isod.

**Tabl 2 - Strwythur y Cyngor**




Mae Gwasanaethau Datblygu yn cynnwys Rheoli Datblygu, Gwasanaethau Cefnogi Datblygu (gwasanaethau technegol), Gweinyddiaeth Cyfunol, Polisi Cynllunio a Rheoli Adeiladu. Mae gan yr adran hon gyfanswm o 41.9 staff cyfwerth ag amser llawn (CALI), sef 15.3 o fewn Rheoli Datblygu, 6 o fewn Rheoli Adeiladu 6, 7.6 o fewn Polisi Cynllunio a 12 CALI o fewn Gwasanaethau Cefnogi Datblygu a'r Weinyddiaeth Cyfunol. Mae'r strwythur hwn i'w weld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3 - Gwasanaethau Datblygu**




Mae Rheoli Datblygu yn gyfrifol am brosesu ceisiadau cynllunio, apeliadau a gweithredu'r swyddogaeth gorfodi cynllunio. Mae wedi'i rannu'n ddau dîm ardal dan arweiniad dau Rheolwr Ardal sy'n adrodd i'r Rheolwr Gwasanaethau Datblygu. O fewn pob tîm ardal, mae yna 1 Prif Swyddog Cynllunio, 2 Uwch Swyddog Cynllunio a 2 Swyddog Cynllunio sy'n delio â cheisiadau cynllunio a'u hapeliadau eu hunain. Mae yna hefyd Uwch Swyddog Gorfodi a Swyddog Gorfodi o fewn pob tîm. Mae'r strwythur hwn i'w weld yn nhabl 4 isod.

**Tabl 4 - Rheoli Datblygu**



Mae Polisi Cynllunio dan arweiniad Rheolwr Polisi Cynllunio sydd hefyd yn adrodd i'r Rheolwr Gwasanaethau Datblygu. Mae Polisi Cynllunio yn gyfrifol am lunio ac adolygu Cynllun Datblygu'r Cyngor a pholisi cynllunio lleol eraill, cadwraeth adeiladau hanesyddol, cytundebau Adran 106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol arfaethedig. Yn atebol i'r Rheolwr Polisi Cynllunio mae 1.5 uwch swyddog polisi, 1 swyddog polisi, swyddog cadwraeth a'r rheolwr cyfraniadau cynllunio. Mae'r strwythur hwn i'w weld yn nhabl 5 isod.

**Tabl 5 - Polisi Cynllunio**



***Gweithgareddau sefydliadol ehangach sy'n effeithio ar y gwasanaeth***

Mae'r Adran yn edrych yn barhaus ar effeithlonrwydd a gweithredu ffyrdd newydd o weithio. Mae'r datblygiadau arloesol newydd wedi cynnwys yn bennaf cyflwyno systemau TG newydd gan gynnwys systemau rheoli dogfennau a Rheoli Datblygu pwrpasol. Mae'r Adran yn gweithio'n agos ag Adrannau eraill er mwyn rhannu gwybodaeth ac osgoi dyblygu o dasgau a dyletswyddau; er enghraifft, mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sy'n gorfodi oriau gwaith ar safleoedd adeiladu yn hytrach na drwy'r broses gynllunio, a rhannu gwybodaeth ynghylch Sipsiwn a Theithwyr gyda'r Tîm Tai ac Eiddo.

Nid yw Casnewydd wedi symud ymlaen gydag unrhyw gydweithio gydag Awdurdodau eraill mewn perthynas â Rheoli Datblygu ond rydym yn cyfrannu at Bolisi Strategol ac ar hyn o bryd yn Cadeirio Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG). Mae'r grŵp hwn yn gyfrwng ar gyfer cydweithredu trawsffiniol rhwng y 10 awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ar hyn o bryd maent yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu'r gwaith cynllunio datblygu strategol. Rydym hefyd yn cyfrannu at Weithgor Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru a Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru sy'n ymwneud â materion mwynau a gwastraff trawsffiniol. Mae Casnewydd hefyd wedi sefydlu menter ar y cyd gyda Norse er mwyn cyflwyno rheoli a chynnal a chadw asedau ar ran y Cyngor.

***Cyllideb weithredu***

Mae'r gyllideb Rheoli Datblygu wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn dros y 3 blynedd diwethaf i'r graddau bod cyllideb 2015/16 oddeutu £80,000 yn llai na'r gyllideb yn 2013/14. Mae'r arbedion cyllidebol mwyaf wedi deillio drwy wariant cyflogion yn ogystal â gostyngiad llai yn y gyllideb ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau. Mewn cymhariaeth, mae incwm ffioedd wedi aros yn gymharol gyson gydag ychydig o gynnydd a ragwelir ar gyfer 2015/2016. Cynyddwyd cyllideb Polisi Cynllunio gan £30,000 rhwng 2013 a 2015

mewn ymateb i amserlen fabwysiadu'r CDLI. Ers mabwysiadu'r CDLI bu gostyngiad bach yn y gyllideb o ganlyniad i resymoli staff.

Caiff incwm ffioedd ei gadw gan yr Adran Rheoli Datblygu ac rydym yn defnyddio dull eithaf cadarn o ragweld incwm ffioedd sy'n tueddu i arwain at bron dim gwahaniaeth o gymharu â'r ffigurau a ragwelwyd. Nid yw incwm yn dylanwadu ar gyllidebau yn y dyfodol gand fod y gwariant i weithredu'r Adrannau Rheoli Datblygu a Pholisi yn cael ei bennu gan gostau'r staff, cyflenwadau a gwasanaethau. Fodd bynnag, gall unrhyw incwm dros ben sy'n fwy na hyn a wariwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cael eu cyfuno i wneud yn iawn unrhyw bwysau ar y gyllideb mewn manau eraill o fewn yr Awdurdod.

### ***Materion Staff***

Sefydlwyd strwythur presennol y Gwasanaethau Datblygu yn dilyn ailstrwythuro yn 2012 a arweiniodd at gollu un swydd swyddog gorfodi a gostyngiad yn nifer y rheolwyr. Roedd y gwasanaeth yn cynnig 2 swydd lleoliad myfyrwyr bob blwyddyn drwy'r Brifysgol lleol, ond nid yw hyn yn digwydd rhagor oherwydd pwysau cyllidebol.

Caiff cyllideb hyfforddiant ei ddyrannu bob blwyddyn er mwyn datblygu staff. Mae adolygiadau blynyddol o staff yn helpu asesu perfformiad a nodi anghenion hyfforddiant. Anogir staff i fynychu cyrsiau hyfforddiant a chynadleddau perthnasol er mwyn ehangu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Mae swydd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu yn wag ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gweddill y gwasanaeth ar hyn o bryd wedi'i staffio'n llawn.

Fel gyda phob Awdurd, mae Casnewydd o dan bwysau i wneud arbedion a lleihau cyllidebau ac mae'n bosibl y bydd yr Adran yn destun adolygiad pellach o'r prosesau a strwythurau ar ryw adeg yn y dyfodol agos.

## **EICH STORI LLEOL**

### ***Llwyth Gwaith***

Ar hyn o bryd mae Casnewydd yn dyst i gynnydd sylweddol mewn cyflenwi datblygu. Mae ffigyrau cwblhad Tai ar gyfer y flwyddyn hon ar y ffordd i fod yn nifer uchaf i'w cofnodi ers dros ddeng mlynedd. Mae Friars Walk, y cynllun manwerthu ac ailddatblygu hamdden gwerth miliynau o bunnoedd yn mynd i ail-lunio canol y ddinas yn sylweddol a chynyddu ffyniant economaidd yng Nghasnewydd. Mae prosiect Canolfan Gynadledda Rhyngwladol Celtic Manor i fod i ddechrau yn gynnar yn 2016, a fydd yn dyrchafu statws Casnewydd ar lwyfan y byd. Yn ogystal, mae prosiectau tai, busnes a seilwaith mawr hefyd ar y gweill neu sydd yn y cam o gael eu cynllunio ar draws ardal y ddinas. Mae pob un o'r rhain yn gadarnhaol dros ben ar gyfer Casnewydd, ond mae pob un yn cynrychioli bwysau sylweddol arall ar wasanaeth cynllunio sydd eisoes dan bwysau.

Byddai disgwyl i'r faich o achosion ar gyfer swyddog cynllunio RhD i fod oddeutu 45 o geisiadau ar unrhyw adeg benodol, gyda thua 30 o geisiadau ar gyfer uwch swyddogion ac oddeutu 24 o geisiadau ar gyfer prif swyddog. Mae hyn yn ychwanegol at ddarparu cyngor cyn ymgeisio â thâl, cyngor datblygu â chaniatâd, amddiffyn apeliadau ac yn cwmpasu gwasanaeth swyddog ar ddyletswydd. Mae pwysau wedi gwaethygu yng Nghasnewydd oherwydd yr anallu i recriwtio Rheolwr Gwasanaethau Datblygu (Prif Swyddog Cynllunio),



swydd sydd wedi bod yn wag ers mis Mai 2015. Mae dyletswyddau'r Rheolwr Gwasanaethau Datblygu yn cael eu rhannu yn bennaf rhwng yr arweinwyr tîm ar draws RhD a Pholisi, ond nid yw hwn yn ateb hir-dymor.

Yn ychwanegol at bwysau o ran adnoddau, mae risgiau mwy penodol yn bodoli mewn perthynas ag anallu'r Cyngor i gyfuno cyfraniadau Adran 106 yn unol â'r Rheoliadau ASC. Felly mae angen i swyddogion fod yn fwy craff o ran trafodaethau A106 tra mae'r awdurdod yn parhau i baratoi ar gyfer ASC. Mae polisi i geisio symiau wedi cymudo ar dai fforddiadwy ar bob cynllun preswyl hefyd wedi cael ei gyflwyno yn ddiweddar ac o ganlyniad mae'n cyflwyno pwysau ychwanegol, yn enwedig o ran penderfynu o fewn yr amserlenni penodedig. Nid yw datblygwyr ar raddfa fach wedi ymgysylltu eisoes gyda'r broses Adran 106 yng Nghasnewydd, ac o ganlyniad, mae'r polisi newydd yn codi nifer o gwestiynau o amgylch hyfywedd ac mae gan hyn y potensial i oedi penderfyniad.

Er gwaethaf cynnydd mewn cyfraddau twf, mae hyfywedd economaidd yn parhau i fod yn broblem yng Nghasnewydd, gyda llawer o ddatblygwyr yn dadlau gofynion Adran 106, naill ai yn ystod y broses benderfynu neu drwy ail-drafod ar ôl y penderfyniad. Mae hyn, yn y pen draw, yn arwain at leihau cyfraddau darparu tai fforddiadwy, gan ychwanegu pwysau pellach gan fod y rhai sydd angen tai cymdeithasol yn gorfod aros yn hirach am lety.

Mae Swyddogion Gorfodi yn cario llwyth achosion unigol mwy o faint, yn amrywio o 60-80 fesul Swyddog. Mae'r ffigwr hwn yn cynyddu'n sylweddol os oes unrhyw faterion staff megis swyddi gwag. Er bod y faich achosion yn amlwg yn fwy nag un Swyddogion Cynllunio, nid yw'r achosion yn gymharol. Gall rhai achosion gorfodi cael eu gau yn dilyn ymweliad â'r safle cychwynnol os na darganfyddir toriad. Fodd bynnag mae Casnewydd wedi ymdrin yn hanesyddol ac yn parhau i ddelio gyda llawer mwy o achosion gorfodi nag Awdurdodau eraill yng Nghymru.

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2015 ac ychwanegwyd cyfres o 10 CCA eu mabwysiadu yn yr haf i ychwanegu at y Cynllun Datblygu Lleol. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod y polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn unol â'r disgwyl, gyda chyfraddau cyflawni yn perfformio'n dda ac mae cyflenwad tir tai ffynianus yn ei le.

### ***Adroddiad Monitro Blynnyddol***

Gan fod y CDLI wedi cael ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2015, nid oes rhaid paratoi AMB cyntaf Casnewydd tan fis Hydref 2016. Mae gwaith cychwynnol wedi dechrau ar y gwaith o baratoi'r AMB, ond ni all y rhan fwyaf o ystadegau cael eu casglu tan ar ôl Ebrill 2016.

### ***Prosiectau cyfredol***

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Gorchymyn Datblygu Lleol (GDLI) i ganol dinas Casnewydd, sef y Gorchymyn Datblygu Lleol cyntaf i gael ei fabwysiadu yng Nghymru. Mae'r GDLI yn symleiddio'r system gynllunio drwy roi caniatâd cynllunio cyffredinol ar gyfer mathau o ddatblygiad annadleuol, er nad o reidrwydd mân, mewn ardal ddiffiniedig.

Mae'r GDLI yn dyfarnu caniatâd cynllunio amodol ar gyfer defnydd penodol mewn isloriau ac mewn unedau llawr gwaelod a llawr uchaf. Y gobaith yw bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol, wrth ganiatáu ystod eang o

ddefnyddiau cydnaws, yn helpu cynyddu lefelau deiliadaeth a gweithgarwch masnachol yng nghanol dinas Casnewydd.

Mae swyddogion hefyd yn y broses o ymchwilio'r defnydd o gytundebau cynllunio perfformiad a manteision dwy ochr y dull. Nid yw penderfyniad gwleidyddol wedi cael ei wneud hyd yn hyn, ond os cytunir, gellir defnyddio cytundebau cynllunio perfformiad ar gyfer cynigion cynllunio mawr ar draws yr Awdurdod.

Mae swyddogion polisi hefyd yn gweithio ar CCA ychwanegol a gwerthusiadau ardal gadwraeth ar gyfer Caerllion a chanol y ddinas er mwyn ehangu'r sylfaen polisi o ran gwneud penderfyniadau.

Mae Swyddogion Gorfodi yn gyfranwyr allweddol i grwpiau prosiect fel yr Eiddo Gwag Diffaith a Masnachol, Tai Gwag ac eiddo Problemaidd. Mae'r grwpiau hyn yn ceisio cronni adnoddau a gwybodaeth er mwyn sicrhau ailddatblygu ac aildefnyddio eiddo broblem o fewn y Ddinas.

### ***Pwysau lleol***

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn profi llif cyson o geisiadau cynllunio ynni adnewyddadwy yn ddiweddar, yn enwedig ffermydd solar. Mae natur y ceisiadau hyn yn aml yn ddadleuol ac maent yn cael effaith anghymesur ar effeithlonrwydd y gwasanaeth. Mae apeliadau penderfyniadau diweddar yn ymwneud â natur dros dro ffermydd solar ac maent wedi gosod blaenoriaeth y mae rhai cymunedau yn siomedig gyda hwy. Mae Hyfforddiant Aelodau ar gynlluniau ynni adnewyddadwy hefyd yn cael eu trefnu fel y gall y Pwyllgor Cynllunio delio â phenderfyniadau o'r fath mewn ffordd fwy gwybodus.

Materion eraill sy'n cael effaith anghymesur ar y gwasanaeth yw geisiadau cynllunio ac achosion gorfodaeth Sipsiwn a Theithwyr, yn enwedig ar Wastadeddau Gwent. Aeth y safle Sipsiwn / Teithwyr arfaethedig a ddynodwyd ar gyfer Hartridge Farm Road drwy broses craffu dwys a oedd yn destun i filoedd o wrthwynebiadau yn ystod yr arholiad CDLI. Mae'r cais cynllunio llawn ar gyfer y safle hwn wedi ei raglennu i'w gyflwyno yn 2016, a bydd yn sicr o ddenu diddordeb sylweddol ac oherwydd natur emosiynol y pwnc, yn debygol o roi mwy o bwysau ar y gwasanaeth.

O ran pwysau lleol eraill, fel y nodwyd uchod, mae'r amser a gymerwyd i drafod a chytuno telerau'r cytundebau cyfreithiol Adran 106 wedi golygu, mewn rhai achosion, bod oedi wedi digwydd wrth wneud penderfyniadau. Mae'r dangosyddion yn dangos bod gan Gasnewydd cyfartaledd o 13 wythnos i benderfynu ar gais cynllunio o gymharu â chyfartaledd Cymru o 11 wythnos. Gyda chyflwyniad y polisi tai fforddiadwy a'r swyddogion yn ceisio am gyfraniadau ar yr holl gynlluniau preswyl, mae angen gofal er mwyn sicrhau nad yw penderfyniadau yn cael eu gohirio ymhellach.

Mae pwysau lleol eraill sy'n dechrau dod i'r amlwg, ac yn debygol o gynyddu yn y dyfodol, yn ymwneud ag ardaloedd yng Nghasnewydd mewn angen dybryd o adfywio, ond hefyd o fewn parthau perygl llifogydd. Mae gweithredu llym TAN 15 yn golygu bod cyfleoedd ailddatblygu yn cael eu cyfyngu'n ddifrifol. Mae hyn yn rhywbeth sydd yn debygol o achosi effaith sylweddol yn y dyfodol gan na all safleoedd tai llwyd posib cael eu dwyn ymlaen o ganlyniad i berygl llifogydd. Mae'r Cyngor wedi bod mewn trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn ac mae wedi gwneud Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'i bryderon.

Yn olaf, mae yna ddau ddatblygiad cenedlaethol o bwys sydd ar hyn o bryd yn y camau cynllunio, lle mae swyddogion yn cynorthwyo gyda hyn yn briodol. Mae'r cynllun coridor traffordd yr M4 a morlyn llanw

Casnewydd arfaethedig, er nad yw'n cael effaith fawr ar adnoddau gwasanaeth ar hyn o bryd, gyda'r potensial i gynyddu llwythi gwaith swyddogion wrth i'r prosiectau mynd yn eu blaen yn gyflymach. Er nad Casnewydd yw'r Awdurdod penderfynu, mae'r gwaith sydd ynghlwm wrth fod yn ymgynghorai i'r canlyniadau Arolygiaeth Gynllunio yn swm cymharol o waith i'w wneud.

### **Gwella gwasanaeth**

Cydnabyddir bod rhywfaint o le i wella o ran amseroedd penderfyniad. Fel y nodir uchod, mae llawer o'r oedi wedi ei achosi gan yr angen i arwyddo cytundeb cyfreithiol Adran 106 a'r broses wirioneddol ynghlwm wrth drafod hyn a dod i gytundeb. Mae Casnewydd yn gwneud cynnydd yn hyn o beth ac mae swyddogion wedi rhoi camau ar waith er mwyn sicrhau ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau unrhyw gytundebau cyfreithiol angenrheidiol o fewn 3 mis i ddyddiad y penderfyniad.

Cafodd targedau yn y Cynllun Gwasanaeth yn ymwneud â chwynion gorfodi, cwblhau tai, cynllunio apeliadau penderfyniadau, ceisiadau a gymeradwywyd oll eu cyflawni'n llwyddiannus.

Mae gweithrediadau allweddol o'r Cynllun Gwasanaeth sydd wedi eu cwblhau yn cynnwys:

- Cwblhau ac agor cynllun Friars Walk Canol y Ddinas;
- Cymeradwyaeth Canolfan Gynadledda Rhyngwladol Cymru yn y Celtic Manor;
- Mabwysiadu 10 CCA;
- Mabwysiadu Gorchymyn Datblygu Lleol yng Nghanol y Ddinas a chefnogi ceisiadau am addasiadau preswyl o ansawdd uchel yng Nghanol y Ddinas;
- Darparu gwasanaeth cwsmeriaid o ansawdd uchel sy'n cyflawni penderfyniadau cadarn a datblygu cynaliadwy;
- Parhau i sicrhau cyfraniadau cynllunio priodol a thai fforddiadwy oddi wrth ddatblygiadau newydd;
- Cynnydd o ran datblygu Ardoll Seilwaith Cymunedol (daeth yr ymgynghoriad ar yr Atodlen Codi Tâl Rhagarweiniol Drafft i ben ym mis Awst 2015).

### **Fframwaith Perfformiad**

Ar sail y dangosyddion perfformiad a osodwyd ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda. Yr ardaloedd mwyaf nodedig o ran perfformiad da yw Gwneud Cynlluniau, Ansawdd ac Ymgysylltu. Yr ardaloedd mwyaf amlwg ar gyfer gwella yw'r categorïau Effeithlonrwydd, ac i raddau llai, Gorfodi. Yn arbennig rhaid gweld gwelliant o ran canran y ceisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnod amser gofynnol a'r amser cyfartalog a gymerir i benderfynu ar geisiadau. Mae'r Awdurdod yn cymryd camau i fynd i'r afael ag amseroldeb ond ni fydd hyn yn golygu recriwtio staff. Yn hytrach, rydym yn edrych ar effeithlonrwydd a rhoi dulliau ar waith er mwyn galluogi Swyddogion a Rheolwyr Ardal i fod yn gwbl ymwybodol o, a chwrrd â, terfynau amser. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau monitro wythnosol gyda monitro perfformiad misol i ganiatáu i'r llwyddiant gael ei fesur.

Er y byddai'r Awdurdod yn dymuno gwella canran y ceisiadau mawr a benderfynwyd o fewn yr amser, mae ein perfformiad yn cymharu â chyfartaledd Cymru. Ystyrir bod yr unig fecanwaith ar gyfer gwella perfformiad ar draws yr holl Awdurdodau yw i ail-ystyried y cyfnod amser a ganiateir. Er bod newidiadau wedi'u gwneud i 'stopio'r cloc' ar gyfer ceisiadau sy'n gofyn am Gytundeb Adran 106 pan gaiff penderfyniad

ei wneud, nid yw 8 wythnos yn ddigon i ddelio â natur gymhleth y ceisiadau mawr yn ogystal â chwedd â'r cylchoedd Pwyllgor a osodwyd. Fel isafswm, ystyrir y dylai ceisiadau mawr mynd yn ôl at y cyfnod penderfynu o 13 wythnos.

Mae pwysau eraill ar y gwasanaeth sy'n ymwneud â dyletswydd yr Awdurdod o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg a'r angen i gael pob gohebiaeth wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae galw cyfyngedig iawn am gyfieithiadau a gohebiaeth Gymraeg yng Nghasnewydd ac yn sicr nid yw Gymraeg yn ymddangos yn y 5 iaith a siaredir fwyaf o fewn y Ddinas. Serch hynny, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod a byddai rhaid ffactora amser oedi i gael llawer iawn o hysbysiadau, llythyrau ac adroddiadau wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg mewn i raddfeydd amser, ond gydag ychydig iawn o gapasiti ar gyfer oedi ychwanegol, rhagwelir y bydd y dyletswydd hon yn cael effaith ar berfformiad yn y cyfnod monitro nesaf.

O ran Gorfodi, mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda o ran y ganran o achosion lle bo camau gorfodi'n cael eu cymryd neu bod cais ôl-weithredol yn cael ei dderbyn o fewn 180 diwrnod, ac rydym yn sicr ar yr un lefel ag Awdurdodau eraill yng Nghymru o ran yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi. Fodd bynnag mae angen gwella'r ganran o achosion yr ymchwiliwyd a hwy o fewn 84 diwrnod, ac mae hyn yn adlewyrchu'r materion staffio rydym wedi profi, yn enwedig o ran cadw a recriwtio staff. O ran staff presennol, mae mecanweithiau wedi cael eu rhoi ar waith sy'n sbarduno nodiadau atgoffa ar gyfer swyddogion achos a Rheolwyr Ardal. Mae hyn yn galluogi achosion i gael sylw priodol a'u trafod er mwyn sefydlu ffordd ymlaen. Nid oes unrhyw gynnydd arfaethedig mewn adnoddau o fewn yr Adran Gwasanaethau Datblygu.

## **BETH OEDD BARN DEFNYDDWYR Y WASANAETH**

Yn 2014-15 cynhaliwyd dau arolwg bodlonrwydd cwsmer gyda'r nod o asesu barn pobl a oedd wedi derbyn penderfyniad cais cynllunio yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd y cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2014 - Medi 2014, a'r ail yn cwmpasu'r cyfnod Hydref 2014 - Mawrth 2015. Mae'r adborth canlynol yn seiliedig ar ganlyniadau cyfunol y ddau arolwg.

Cafodd yr arolygon eu hanfon at 399 o bobl, gydag 14% ohonynt yn cyflwyno ymateb cyfan neu rhannol. Roedd mwyafrif yr ymatebion (51%) yn dod o asiantau lleol. Roedd 36% yn aelodau'r cyhoedd. Cafodd 17% o'r ymatebwyr eu cais cynllunio diweddaraf wedi ei wrthod.

Gofynnem i ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y gwasanaeth cynllunio. Rhoddwyd yr opsiynau ateb isod iddynt:

- Cytuno'n gryf;
- Tueddu i gytuno;
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno;
- Tueddu i anghytuno; ac
- Anghytuno'n gryf.


Mae Tabl 1 yn dangos y ganran o ymatebwyr wnaeth ddewis naill ai 'tueddu i gytuno' neu 'gytuno'n gryf' ar gyfer pob datganiad ar gyfer ein hawdurdod cynllunio a Chymru.

**Tabl 1: Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â phob datganiad, 2014-15**

Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno bod:	%	
	ACLI Casnewydd	Cymru
Mae'r ACLI yn gorfodi ei reolau cynllunio'n deg ac yn gyson	51	45
Rhoddodd yr ACLI gyngor da i'ch helpu i wneud cais llwyddiannus	69	57
